# cwmpawd

eglwys efengylaidd
gymraeg caerdydd



Rhif 47
Ionawr - Mawrth 2007

# Golygyddol

## *Noel Gibbard*

Ar ddechrau blwyddyn mae'n gyfle i ddiolch am ofal a gras Duw yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Mae'n gyfle hefyd i gofio am y diweddar J. D. Williams, neu JD fel yr anwylwyd ef. Nodaf dri atgof o blith llawer. Un o'r troeon cyntaf i mi weld JD oedd yn y pulpud yn Soar, Pontyberem, yn drwsiadus ei wisg a dymunol ei gyflwyniad. Soniai am y gŵr dall yn cael ei olwg. Plygodd dros y pulpud a chyfeirio at y blodau ar y ford, a meddwl am ddyn dall yn cael ei olwg a gweld prydferthwch y blodau am y tro cyntaf. Pa faint mwy y rhyfeddod pan fydd yr ysbrydol ddall yn cael golwg ar brydferthwch yr Iesu. Gair golau am yr Iesu oedd gan JD i'w gyhoeddi.



*JD Williams, a'i briod, Olwen*

Pan ymosodai'r deallusion ar y Beibl, cysur cryf oedd medru cyfeirio at JD. Medrem ddweud yn hyderus: 'Mae J.D.Williams, Bethany, yn BA a BD, ac mae ef yn credu'r Beibl'. Nid balchder cnawdol oedd hyn, ond mynegiant o ddiolch y gellid defnyddio'r meddwl fel gwas yr efengyl. Roedd JD yn gadarn yn y gair ysgrifenedig.

Braint oedd perthyn i *fraternal* Rhydaman o dan lywyddiaeth JD. Wrth fynd i'r cyfarfodydd, yr un oedd yr olygfa bob tro, sef JD y tu ôl i'r bwrdd yn ystafell y gweinidog, â'i law wedi ymestyn i groesawu pob gweinidog yn ei dro. Llaw JD oedd yn clymu'r aelodau wrth ei gilydd. Roedd cymdeithas o gwmpas y gair yn bwysig iddo. Wrth edrych ymlaen i'r flwyddyn hon, syllwn ar brydferthwch yr Iesu; gwreiddiwn ein ffydd yn gadarn yn y gair, a gwnawn yn fawr o gymdeithas pobl y gair.

# Fy atgofion

## *Eunice Davies*

Cwrddais â'r Parch. J. D. Williams am y tro cyntaf yn ystod gwanwyn 1944. Roedd wedi dod i aros yn fy nghartref am benwythnos, am ei fod i bregethu yn Eglwys Bethani, Rhydaman ar y Sul. Erbyn yr hydref roedd yn ôl yn Rhydaman, fel gweinidog newydd yr eglwys, ynghyd â'i wraig annwyl, Mrs Olwen Williams. Roedd croeso mawr iddynt i'n plith, yn enwedig gan y bobl ifainc. Teimlem yn falch iawn o'n gweinidog newydd, ifanc, golygus.



***Y gweinidog ifanc ym 1944***

Roedd y flwyddyn 1945 yn flwyddyn o ddathlu mawr. Bu dau ddigwyddiad hapus iawn. Ganwyd mab bach i Mr a Mrs Williams. Yna fe ddaeth yr Ail Rhyfel Byd i ben, ac i ddathlu hynny buom yn gorymdeithio fraich yn fraich – yn weinidog a phobl ifainc - drwy strydoedd Rhydaman.

Ar ddiwedd Gorffennaf a dechrau Awst 1946 daeth nifer o fyfyrwyr a berthynent i'r hen IVF (UCCF erbyn hyn) i gynnal Ymgyrch yn Rhydaman. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ym Methani. Ar y nos Iau roedd yn arllwys y glaw, ond gan fy mod yn arfer mynd i'r Seiat ar nos Iau, penderfynais fynd i weld beth oedd gan y myfyrwyr yma i'w ddweud. Roedd nifer o ieuenctid Bethani yn yr oedfa, wedi dianc i eistedd lan llofft, allan o olwg yr oedolion. Ar ddiwedd yr oedfa bregethu fe'n gwahoddwyd i'r festri i gyfarfod llai ffurfiol. Bu sgwrsio pellach, ac amser o weddi, a'r Ysbryd Glân yn gweithio'n rymus ar lawer i galon. Erbyn diwedd y cyfarfod roedd Mr Williams, y gweinidog, ynghyd â

nifer o'i aelodau ieuainc wedi dod i ymddiried yn yr Arglwydd Iesu Grist fel eu gwaredwr personol.

Bellach, roedd gweinidog 'newydd' yn Bethani. Roedd Mr Williams yn bregethwr digon da cyn hyn, ond nawr pregethai Iesu Grist yn Waredwr pechaduriaid. Cofiaf, mewn un oedfa, ar ôl iddo ddarllen adnod ei destun, fod rhai o'r blaenoriaid yn dechrau anesmwytho. Edrychodd Mr Williams i lawr arnynt o'r pulpud, gan ddweud 'Ie, rydw i wedi pregethu ar y testun yma o'r blaen, ond mae gen i bregeth wahanol heno.'

Yn fuan ar ôl yr Ymgyrch, dechreuodd Cristnogion ifainc Rhydaman a'r cylch ddod at ei gilydd ar nos Wener i astudio'r Beibl ac i weddïo. Roedd gan Mr Williams lawer iawn o waith i'w wneud fel gweinidog Bethani, gydag oedfa bron bob nos o'r wythnos. Rhoddodd ei noson rydd i fyny er mwyn dod atom i'n cefnogi.

Byddem ninnau, fel ieuenctid, yn ceisio bod yn gefn i'n gweinidog hefyd. Ceisiem fynd yn ffyddlon i'r Cwrdd Gweddi a'r Dosbarth Beiblaidd ar nos Lun, ac i'r Seiat ar nos Iau. Ar nos Fawrth roedd cyfarfod y Bobl Ifainc. Fe ddysgom yn fuan bod angen paratoi cyn mynd i unrhyw wasanaeth! Byddai Mr Williams yn galw ar un ohonom i gymryd at y rhannau arweiniol, ar ôl rhoi rhybudd bach i ni o 4-5 munud!

Dechreuais fy nghyfnod fel myfyrwraig yng Nghaerdydd yn 1948, ac ar ddiwedd bob tymor byddwn yn edrych ymlaen i gael bod nôl yn Bethani i wrando eto ar bregethau Mr Williams. Byddai'n holi am waith yr Undeb Cristnogol yn y coleg. Trefnais iddo ddod i'n hannerch, ac fe ddaeth yn frwdfrydig i oedfa efengylaidd Gymraeg – wedi gorfod gadael Rhydaman am un o'r gloch a chyrraedd adref am hanner awr wedi naw yr hwyr.



*Y Parch. a Mrs Williams, gyda'u meibion, Hywel a Gwynn*

Dysgodd ni mewn gair ac mewn esiampl i fod yn barod i rannu'n ffydd ag eraill. Pregethai'r efengyl yn glir a phendant, ac nid digon iddo oedd cael pregethu yn Bethani. Yn ystod misoedd yr haf cawsom her ganddo i gynnal cwrdd awyr agored ym Mharc Rhydaman ar ôl oedfa nos Sul. Dyna ble y byddem – i fyny yn y *Band Stand* – yn canu emynau ac yn tystiolaethu i'r dyrfa a fyddai'n casglu o'n hamgylch.

Braint oedd cael y Parch. J. D. Williams yn weinidog i mi ar gychwyn fy mhererindod ysbrydol. Daethom ni fel pobl ifainc i'w garu, a'i barchu a'i edmygu. Pan fyddai'n gofyn i ni gymryd rhan mewn oedfa, boed yn y capel neu yn yr awyr agored, byddai'n gofyn â'i wên dawel, ac ni allem wrthod.

Ond nid gweinidog sych-dduwiol mohono chwaith. Cawsom lawer o hwyl gyda fe. Cofiaf i Mr a Mrs Williams ganu'r ddeuawd 'Hywel a Blodwen' i ni mewn parti pobl ifainc, gan newid yr enwau i Daniel ac Olwen. Mae'n ddigon posibl iddynt orfod canu *encore* i ni. Byddai'n mwynhau dod ar drip yr Ysgol Sul i Borthcawl neu'r Barri. Ar ddiwedd y dydd byddai'n cael hwyl gyda ni yn y ffair, ac yn mynd ar y *big dipper*. A gwae chi os byddech chi'n cael reid yn y *dodgem* cars yr un pryd ag ef.

Dim rhyfedd i mi deimlo mor hiraethus yn fy oedfa olaf yn Bethani cyn priodi. Roedd Mr Williams wedi bod yn fugail annwyl iawn i mi ac wedi rhoi hyder i mi fel Cristion ifanc. Mr Williams a briododd Gareth a minnau yn Bethani ym mis Gorffennaf 1957. Byddai Gareth yn arfer dweud bod angen gweinidog ar weinidog a'i wraig a'i deulu ar brydiau, a'r Parch. J. D. Williams oedd ein gweinidog ni. Pan anwyd ein plant byddai'n dod atom i Bontardawe i'w bedyddio. Pan oedd marwolaeth yn y teulu, ef fyddai'n claddu ac yn cysuro. Roedd yn bresennol ym mhriodas tri o'n plant ni. Ein hyfrydwch oedd ei groesawu i Gaerdydd i gydaddoli â ni yn yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg.

Mae gennyf atgofion hapus iawn o'r gŵr annwyl yma – y Parch. J. D. Williams. Fel Mr Williams y byddwn i o hyd yn ei gyfarch, hyd nes iddo ddod i fyw yng Nghaerdydd. Ar ei wahoddiad ef ei hun, dechreuais ei alw yn J.D. Diolch i Dduw amdano ac am ei lafur diflino yn cyhoeddi efengyl ein Harglwydd Iesu Grist.

# Detholiad o ysg diweddar J. D.

*E Wyn James*

*Dau weinidog a fu gan Eglwys y Methodistiaid Calfinaidd ym Methani, Rhydaman rhwng 1900 ac ymddeoliad J. D. Williams yn 1981, sef W. Nantlais Williams a J. D. Williams. Daeth J. D. Williams yn weinidog Bethani yn 1944, ar ymddeoliad Nantlais; ac yn 1960 daeth hefyd yn Llywydd Cynhadledd y Sulgwyn, Rhydaman, yn dilyn marwolaeth Nantlais yn 1959. Olynydd J. D. Williams ym Methani oedd y Parch. Gareth H. Davies, a fu'n weinidog Bethani rhwng 1981 a'i ymddeoliad yn 1994. Dyma ran o ysgrif J. D. Williams, 'Cofio Geni Nantlais', a gyhoeddwyd yn* Y Cylchgrawn Efengylaidd, *Mawrth/Ebrill 1975.*

Ni ellir pwyso a mesur bywyd a gweinidogaeth Nantlais heb gofio am y profiad chwyldroadol a gafodd yn Niwygiad 1904. Nid rhywbeth sydyn oedd ei dröedigaeth. Er ei fod eisoes yn dechrau ennill amlygrwydd fel bardd cadeiriol a phregethwr dawnus, mae'n amlwg ei fod ers tro yn bur anniddig ei ysbryd. Dadleuodd lawer – ac yn bur ffyrnig ar adegau – â rhai yng nghylch Rhydaman ynglŷn â thröedigaeth a sicrwydd cadwedigaeth. Cyn i'r Diwygiad sgubo drwy'r dre, trefnodd Nantlais i'w aelodau glywed hanes y cynyrfiadau rhyfedd yng Ngheinewydd, a chael wythnos o gyrddau gweddi cyn ymweliad y Parch. Joseph Jenkins yng nghyrddau pregethu Bethani ddechrau mis Tachwedd. Yr wythnos ddilynol, cafodd ef, a llawer yn y cylch, eu bedyddio â'r bedydd tân. Ceir disgrifiad byw o'r 'wythnos fawr', fel y galwodd hi, yn ei lyfr, *O Gopa Bryn Nebo*. Dyma, yn ddiamau, drobwynt mawr ei fywyd [. . .]


Gadawodd y Diwygiad ei ôl ar Nantlais mewn dwy ffordd o leiaf. Er ei fod eisoes yn dechrau ennill sylw fel bardd da drwy ennill tair cadair, ac yn arbennig gwobr am delynegion yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn 1902, fe ymwrthododd yn llwyr â'r cystadlu eisteddfodol. Pan ddaeth y Diwygiad ar ei draws roedd

# rifau'r Williams

ganddo bryddest yn barod ar gyfer Eisteddfod Meirion y flwyddyn ddilynol, ond nis danfonwyd hi i mewn. Dros dro, er hynny, y cuddiwyd dawn y bardd. Mae'n debyg mai ei gyfaill, y Parch. R. B Jones – a gyfrifid yn bictiwr o gulni gan rai – a'i cymhellodd i ailddechrau barddoni. Canolbwyntiodd ar ysgrifennu emynau, a rhoddwyd lle erbyn hyn i nifer ohonynt yn y gwahanol gasgliadau enwadol. Yn *Emynau'r Daith* (1949) ceir enghreifftiau da o'i waith fel emynydd – yn Gymraeg a Saesneg – ac fel cyfieithydd. Ei awydd pennaf, yn ôl pob tebyg, oedd cyfansoddi emynau i blant, ac yn ddiamau fe lwyddodd yn hyn o beth, a bydd rhai o'i emynau plant fyw yn hir iawn. Ceir yr un elfennau yn rhedeg drwy ei emynau, sef ei ffyddlondeb i'r Beibl, ei bwyslais ar Berson Crist a'i waith, a'r sylw cyson i athrawiaethau canolog y ffydd Gristnogol. Drwy ei emynau a'i gantawdau ceisiai bob amser ogoneddu'r 'Iesu Bendigedig'.

Gwelwyd dylanwad mwyaf y Diwygiad ar Nantlais yn ei waith fel gweinidog yr efengyl. Yn ystod ei weinidogaeth o ddeugain mlynedd yn yr un cylch, cafodd gyfle ac amser i hau yn ofalus a threfnus. Cyfyngodd ei sylw drwy'r blynydd-oedd i hanfodion y weinidogaeth, sef pregethu'r efengyl gyflawn, meithrin a dysgu'r credinwyr trwy ddosbarthiadau beiblaidd, a magu cymdeithas ysbrydol gynnes ar lwybr cwrdd gweddi a seiat. Dyma'r elfennau a gyfrifai ef yn bwysig i bob oedran [. . .]

Ochr yn ochr â'r agwedd yma i'w weinidogaeth rhaid cyfeirio at awydd Nantlais i feithrin byw-yd ysbrydol y saint mewn cylch ehangach. Parodd ei sêl genhadol fyw iddo feddwl am ei ardal, ac yn wir, am Gymru. Cryfhawyd hyn drwy ddylanwad Cynadleddau Keswick a Llandrindod arno, a hiraethai am



weld rhywbeth tebyg yng nghylch Rhydaman. Yn 1916, gan fod blwyddyn dathlu daucanmlwyddiant geni Williams, Pantycelyn yn 1917, penderfynodd ddarllen ei holl weithiau a chefn-dir y Diwygiad Methodistaidd. Gwelodd fel y bu i arweinwyr ieuanc y cyfnod, drwy gwrdd â'i gilydd yn gyson i weddïo a rhannu profiad ysbrydol, arwain i bethau mor fawr. Hyn a symbylodd Nantlais i gychwyn 'Cynhadledd y Sulgwyn' yn Rhydaman yn 1917 er mwyn tynnu'r saint ynghyd, a dyfnhau eu bywyd ysbrydol. Prin y gellir mesur dylanwad y Gynhadledd drwy'r blynyddoedd. Mae'r ffaith ei bod o hyd yn fyw ac yn parhau'n gyfrwng bendith yn gystal prawf â dim efallai o effeithiol-rwydd gweinidogaeth Nantlais.

---

*Fel Nantlais o'i flaen, cafodd J. D. Williams yntau dröedigaeth ychydig flynyddoedd ar ôl iddo ddod yn weinidog Bethani, Rhydaman. Dyma ef yn sôn am hynny yn ei ysgrif 'Edrych yn Ôl' yn* Y Cylchgrawn Efengylaidd, *Hydref/Tachwedd 1969 – rhifyn arbennig i ddathlu pen-blwydd y cylchgrawn yn 21 oed. Roedd gan ei fab, Gwynn Williams, ysgrif yn yr un rhifyn yn dwyn y teitl 'Edrych i'r Dyfodol'.*

Trwy symud i Rydaman yn 1944, dygwyd fi, am y tro cyntaf bron, i berthynas fyw â'r achos efengylaidd. Breintiwyd eglwys Bethani â thraddodiad efengylaidd cryf. Profiad hyfryd fu cymysgu â nifer dda o aelodau oedd wedi profi'n drwm o fendithion ysbrydol Diwygiad 1904, a rhai oedd yn parhau i ddangos realiti'r profiad hwnnw yn eu holl fywyd. Yn 1946, cynhaliodd grŵp o fyfyrwyr o golegau Cymru ymgyrch efengylaidd yn y dre. Gorfodwyd fi, am y tro cyntaf, i ymwybod â hawl yr Arglwydd Iesu Grist arnaf, ac â'r ffaith na allwn bregethu Crist yn Waredwr i eraill, heb fy mod i wedi profi ei iachawdwriaeth Ef fy hunan. Cefais i, ac eraill yn y cylch, ras i ymateb, a diolchaf hyd heddiw am y profiad newydd a ddaeth i mi yn yr ymgyrch honno.

Amhosibl, wrth gwrs, oedd imi osgoi neges a phwyslais arbennig Cynhadledd y Sulgwyn, a gynhelid yn flynyddol ym Methani. Fe'm tynnwyd i mewn yn naturiol i holl weithgarwch y Gynhadledd. Ar y cychwyn, rhoddai pwyslais arbennig y Gynhadledd dipyn o anesmwythyd i mi, ond wedi ymgyrch 1946 bu'r Cynadleddau blynyddol hyn yn foddion i ddyfnhau a chadarnhau fy ffydd.

Tua 1948 darbwyllwyd fi gan nifer o Gristnogion ieuainc i fod yn un

o gyd-olygyddion cyntaf *Y Cylchgrawn Efengylaidd*. Dyma'r cyfnod y cychwynnwyd 'Mudiad Efengylaidd Cymru'. Braint fu cydweithio ag arweinwyr y Mudiad drwy'r blynyddoedd, a gallaf dystio'n glir am y fendith ysbrydol gyfoethog a ddaeth i mi drwy weithgarwch holl ganghennau'r Mudiad.

Wrth nodi'r atgofion personol hyn, rhaid diolch i'r Arglwydd am roi fy nhraed ar y llwybrau hyn, a chael mwynhau cymdeithas hyfryd eraill sydd yn cerdded yr un llwybrau.

---

*O'r ysgrif 'Gair y Bywyd' yn* Y Cylchgrawn Efengylaidd, *Ebrill/Mai 1951, rhan o gyfres o nodiadau esboniadol gan J. D. Williams ar Efengyl Marc.*

**Efengyl Marc, pennod 8, adnodau 27–38**

Dyma un o ddigwyddiadau pwysicaf gweinidogaeth Crist. O hyn ymlaen gwelir Ef yn canolbwyntio sylw ar ei Berson Ef ei Hun. Dyna bwyslais adnod 28 a 29. Mae'n bwysig i *bawb* wybod *pwy* yw'r Iesu – ond pwysicach o lawer ein bod *ni* yn gwybod pwy ydyw. Dengys cyffes Pedr ei fod yn cyfrif yr Iesu fel cyfrwng Duw i gadw'r byd. Anfonedig Duw yw Gwaredwr y byd. Ar sail hyn gall yr Iesu bwysleisio dau beth sy'n dilyn yn naturiol:

a) *Aberth y Crist*. Dyma sail y *ffydd* Gristnogol. Agorwyd y ffordd gan gyffes Pedr i'r rhagfynegiad pendant cyntaf am farwolaeth Grist – er i hynny ymddangos yn ddianghenraid a gwrthun i'r disgyblion. Ond ni ellir achub y byd heb y groes, er iddi fod yn dramgwydd a ffolineb i lawer o hyd. Y groes yw unig obaith y byd.

b) *Aberth y Cristion*. Dyma sail y *bywyd* Cristnogol. I ddilyn Crist rhaid aberthu. Rhaid croeshoelio hunan, ac ymddiried yn llwyr i arweiniad Crist. Dyma'r bywyd a rydd *ddiogelwch gwir* i ni (35); a dry'n *gyfoeth gwir* i ni (36, 37) ac a dry'n *ogoniant gwir* i Fab y Dyn (38).

---

*Dyma ran o'r ysgrif 'Y Tri Rhaid – sef 'Rhaid dyrchafu Mab y Dyn' (Ioan 3:14), 'Rhaid eich geni chwi drachefn' (Ioan 3:7) a 'Rhaid iddo ef gynyddu' (Ioan 3:30) – a gyhoeddwyd yn* Y Cylchgrawn Efengylaidd, *Gorffennaf/Awst 1949.*

'*Rhaid eich geni chwi drachefn.*' [. . .] Y mae gwaredigaeth y groes yn ffaith na all amser na dyn ei diddymu, ond – a dyma'r drychineb – fe all dyn wneud gwaredigaeth y groes yn ddirym yn ei fywyd personol ef ei hun drwy beidio ag ymateb iddi.

Oni ddengys cyflwr dynion heddiw fod hyn yn ffaith – dynion ar goll a'r feddyginiaeth wrth law!

Dengys Crist fod yn rhaid i rywbeth ddigwydd ym mywyd dyn – rhaid iddo gael ei 'ail-eni'. Rhaid i'r Crist a fu farw dros ddyn, ddod i mewn i galon dyn. Rhaid i'r Crist a ddyrchafwyd i'r groes, gael ei ddyrchafu i orsedd calon dyn, a chael cyfle i fyw ei fywyd ei Hun yn y galon honno. Dyna yw y geni drachefn. Y Crist a roddodd ei fywyd ar y groes yn dod i fyw yn y 'galon euog ddu'.

A yw'r profiad hwn yn eiddo i ni? Hwyrach y dywaid rhai nad oes angen amdano: bod byw yn foesol yn ddigon. Gymaint o bobl sydd heddiw, fel Nicodemus gynt, yn pwyso ar draddodiad crefyddol, ac ar barchusrwydd bywyd. Credant fod hyn yn ddigon. O na chlywem eto bwyslais pendant yr Iesu – '*Rhaid* eich geni chwi drachefn.' Nid cyn hynny y gwelir ystyr y waredigaeth a drefnodd Duw i rai anghenus.

---

*Dyma'r cyntaf o dri phen yn ateb y cwestiwn 'Pa fodd y dylid darllen y Beibl?' yn yr ysgrif 'Darllen y Beibl' yn* Y Cylchgrawn Efengylaidd, *Tachwedd 1950 – Ionawr 1951. Y ddau ben arall oedd 'Rhaid darllen y Beibl yn gyson' a 'Rhaid darllen y Beibl yn weddigar'.*

Rhaid darllen y Beibl yn fanwl. Wrth hyn golygwn ddau beth. Yn gyntaf, rhaid ei ddarllen drwyddo; nid anwybyddu rhannau ohono, ond ei ddarllen i gyd, gan gofio mai'r un Ysbryd Sanctaidd a arweiniodd ei gyfryngau i ysgrifennu Llyfrau'r Cronicl ac Efengyl Ioan. Gwir y teimlwn yn aml fod mwy o gyfoeth ysbryd a dyfnder meddwl mewn rhannau arbennig o'r Beibl, ond nid yw hynny'n esgus, na rheswm, dros anwybyddu'r darnau eraill ohono. Cofiwn y gall Duw siarad â ni trwy unrhyw ran o'i Air Sanctaidd.


Golygir, yn ail, na ddylid rhedeg trwy'r Beibl yn ddifeddwl, na'i ddarllen yn arwynebol. Rhaid ymarfer ein hunain i astudio'r Gair. Rhaid weithiau wrth astudio'r cefndir hanesyddol; hwyrach y cawn, brydiau eraill, help trwy gyfieithiadau, a thro arall drwy esboniadau. Ond cofiwn bob amser mai'r esboniad gorau ar y Beibl yw'r Beibl ei hun: eithr cyn y gellir dilyn ei esboniadaeth arbennig ei hun, rhaid bod yn barod i'w astudio'n fanwl, ac aros uwch ei ben, a chwilio'n ddyfal nes dod o hyd i'r gwirionedd. Rhaid i ddarllen y Beibl gostio'n ddrud o ran ymdrech meddwl ac ysbryd.

# Adolygiad

## *Rhodri Jones*

Ydych chi erioed wedi darllen y Beibl? Na, dw i'n meddwl *really* ei ddarllen e. Dw i'n credu mai Tyndale ddywedodd fod y Beibl ar gyfer y brenin ar ei orsedd a'r gweithiwr yn y cae fel ei gilydd. Iawn, ond sut mae'r boi 'na yn y cae i fod i wneud synnwyr o Lefiticus neu Job, neu Genesis 1 hyd yn oed? Dyw e ddim cweit fel darllen y *Western Mail*, nag yw e? Weithiau rydyn ni'n teimlo bod angen gradd mewn diwinyddiaeth i ddeall ambell ddarn, ac yna wrth wrando ar bregeth ar ddydd Sul rydyn ni'n clywed bod un o'r geiriau'n golygu rhywbeth arall yn y Groeg gwreiddiol ta beth. Gwell, siŵr o fod, fyddai jyst sticio at yr adnod yng nghalendr y Mudiad Efengylaidd, gwrando ar bregeth bob dydd Sul a darllen *Morning and Evening*. Alla i ddim â mynd yn *wrong* 'da Spurgeon ... alla i?

Gobeithio nad fi yw'r unig un sy'n teimlo fel 'na. Mae darllen y Beibl yn un peth, ond mae ei astudio yn fater arall. Ond, yn ôl *Dig Deeper!*, does dim angen gradd mewn diwinyddiaeth na phrofiad helaeth o'r Hebraeg a'r Groeg i ddeall a dadansoddi gair Duw mewn modd a fydd yn darparu llaeth i'w yfed a chig i'w gnoi. Yr hyn mae Beynon a Sach yn ei roi i'r darllenydd yw'r tŵls cywir




***Dig Deeper!***
***Nigel Beynon ac Andrew Sach***
***IVP, £7.00***

**(Parhad ar dudalen 16)**

# Y Christian Ins


## *Noel Gibbard*

Dyma enghreifftiau o'i weithgarwch yn ystod y cyfnod diweddar:

**Opera Jerry Springer**
Gydag eraill trefnodd yr Institiwt brotestiadau, a bu'r rhain yn effeithiol iawn. Daeth 1,500 ynghyd yn Lerpwl, a 1,200 yng Nghaerdydd. Yn Newcastle, roedd 700 yn y Neuadd Frenhinol, tra bod 850 yn protestio y tu allan. Roedd y brotest yn gyfrwng i dystio trwy ganu emynau a darlleniadau.

**Achos Joe a Helen Roberts**
Protestiodd y ddau hyn yn erbyn polisi hawliau hoyw Cyngor Bwrdeistref Wyre. Hysbysodd y Cyngor yr heddlu a danfonwyd dau heddwas i gartref Mr a Mrs Roberts, a'u holi ynglŷn â'u hargyhoeddiadau. Roedd hyn yn groes i hawliau cyfreithiol yr heddlu. Eto i gyd, am gyfnod o fisoedd gwrthododd y Cyngor a'r heddlu ymddiheuro. Ac ar ôl hir oedi, cafodd Mr a Mrs Roberts ymddiheuriad oddi wrth y Cyngor a Heddlu Caerhirfryn. Er i hyn ddigwydd, credai'r gŵr a'r wraig y dylid dwyn achos cyfreithiol yn erbyn y ddau gorff. Disgwylir am ddyfarniad 17 Chwefror 2007.

**Cartŵn Cymdeithas yr Heddlu Hoyw**
Ymddangosodd y cartŵn dan sylw yn yr *Independent*, Mehefin 2006. Dangoswyd Beibl a phwll o waed yn ei ymyl. Awgrymai hyn mai Cristnogion oedd yn gyfrifol am ddigwyddiadau yn erbyn pobl hoyw, a hynny yn 'enw'r tad' – honiad cwbl ddi-sail. Derbyniwyd 40,000 o brotestiadau yn erbyn y cartŵn, a dywedodd yr *Advertising Standard Authority* ei fod yn annerbyniol, 'untrue, indecent and unsubstantiated'. Ond ni ddygwyd achos yn erbyn Cymdeithas yr Heddlu Hoyw. Pan ddosbarthodd Cristion dractiau Cristnogol yng Nghaerdydd, yn beirniadu Islâm, a hynny'n gwbl heddychol, fe'i herlyniwyd. Pan wrthododd un o weithwyr Gwasanaeth Tân Strathclyde ymuno mewn gorymdaith 'to promote equality and diversity for lesbians, gays, bisexuals and transgen-



der', darostyngwyd ef, a'i golledu o £5,000 mewn cyflog. Cyflogodd yr Institiwt gyfreithiwr i ymladd ei achos, ac adferwyd y gweithiwr i'w swydd.

**Gogledd Iwerddon: Rheolau Tueddiadau Rhywiol**

Daw'r rhain i rym yn Ionawr 2007. Cyn hyn, trwy weithgarwch yr Institiwt a chefnogaeth amryw o enwadau crefyddol, rhoddodd barnwr o'r Uchel Lys yr hawl i adolygu'r rheolau. Mae'r Institiwt ar y blaen hefyd wrth gadw llygad ar yr hyn sy'n digwydd ym Mhrydain. Oherwydd difrifoldeb y posibiliadau, penderfynodd yr Institiwt ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn y Llywodraeth. Dyma rai posibiliadau os caiff cefnogwyr y newidiadau eu ffordd: gorfodi ysgolion i ddefnyddio llyfrau hoyw; cylchgronau yn colli hawl i wrthod hysbysebion gan hoywon; capeli yn dioddef wrth wrthod adeilad i'w cyfarfodydd, a ffotograffydd yn colli ei swydd oherwydd gwrthod tynnu lluniau cyfarfodydd hoywon. Ar 9 Ionawr 2007, pleidleisiodd Tŷ'r Arglwyddi yn erbyn dileu mesurau Gogledd Iwerddon. Bydd hyn yn baratoad i gyflwyno mesurau tebyg yng ngweddill y Deyrnas Unedig ym mis Ebrill. Ni wna'r canlyniad hwn unrhyw wahaniaeth i fwriad yr Institiwt i erlyn y Llywodraeth.

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain. Mae'n amlwg fod eisiau i ni fod yn effro. Yn ddiweddar agorwyd canolfan newydd yr Institiwt, Tŷ Wilberforce. Mae'r enw yn ein hatgoffa o'r gwaith mawr a wnaeth y gwron hwnnw er mwyn dileu caethwasiaeth. A dyma'r union flwyddyn i gofio mai dau can mlynedd yn ôl y digwyddodd hynny. Gellid cael gwybodaeth helaeth ar www.christian.org.uk

# Holi Hwn a Hon

# Gwydion

**Sut dest ti'n Gristion?**
Mae gen i gof gwael a dydw i ddim yn cofio'r manylion yn iawn – well i chi ofyn i Mam! Roeddwn i tua 8 oed ac roedd Dad yn arwain gwersyll ym Mryn-y-groes. Roeddwn i eisiau gwybod sut ydych chi'n gallu gwybod yn siŵr eich bod chi'n Gristion. Er nad ydw i'n cofio'n union beth ddigwyddodd, rwy'n cofio teimlo ofn a difrifoldeb pechod, ac fe gyfeiriodd Mam fi at y drydedd Salm. Rwy'n cofio ymwybyddiaeth wedyn o sicrwydd fy mod yn iawn gyda Duw. Ers y cyfnod hynny, mae realiti nefoedd ac uffern wedi bod yn fyw iawn i mi.

**Beth yw dy hoff emyn?**
Dydw i ddim yn meddwl y galla i ateb y cwestiwn yna. Mae gwahanol emynau wedi bod yn bwysig i mi ar wahanol adegau. Mae'r cyfoeth sydd yn ein hemynau wedi bod yn gyfrwng bendith i mi sawl gwaith. Rydw i mor gyfarwydd â llawer o'r emynau fel eu bod nhw ar fy nghof. Mae'n fendith gallu eu dwyn i gof ar unrhyw adeg. Rwy'n mwynhau canu mawl i Dduw, a chanmol fy Ngwaredwr.



**Beth yw dy hoff lyfr? Neu pa fath o lyfrau wyt ti'n hoffi eu darllen? (Cristnogol a seciwlar)**
Dydw i ddim yn ddarllenwr wrth reddf, ond rwy'n mwynhau darllen esboniadau Beiblaidd ac yn elwa o wneud hynny. Roedd *Shadow of the Almighty*, sef hanes Jim Elliot, yn fendith ac yn her i mi, ac mae'r hanes yn dal i'm cyffwrdd.

Pan fydda i ar wyliau rwy'n hoffi darllen nofelau John Grisham, a llyfrau ar waith coed a chwaraeon.

**Sut fyddi di'n treulio dy amser hamdden?**
Rwy'n cael boddhad o wneud gwaith coed, er nad ydw i'n arbenigwr. Rwy'n hoffi creu rhywbeth o bren gwastraff (mae'n rhatach na phrynu pren). Rwy'n cael boddhad

# n Lewis

mawr hefyd o edrych ar chwaraeon ar y teledu, yn arbennig rygbi, gan ganolbwyntio ar yr elfen dechnegol o'r gêm. Does dim angen dweud, wrth gwrs, fy mod i wrth fy modd yn treulio amser gyda'r teulu hefyd.

**Beth sy'n help i ti yn dy gerddediad ysbrydol?**
Mae esiampl Cristnogion hŷn yn her ac yn anogaeth i mi. Rwy'n dotio at dduwioldeb y saint sydd wedi byw yn ffyddlon i'w Gwaredwr ar hyd y blynyddoedd, a gwirioneddau'r Efengyl yn dal i'w cyffwrdd. Mae cyfoeth bywyd teuluol yn help cyson i mi (y teulu yn y cartref, a'r teulu ehangach) – cyfle i sgwrsio, trafod, rhannu, cyd-ddarllen a gweddïo. Y gynhaliaeth fwyaf sylfaenol yw darllen a gweddïo dyddiol, wrth gwrs. Rydw i'n aml yn cael fy hun yn meddwl am y nefoedd. Mae'r addewidion hynny yn fy nghyffroi ac yn fy symbylu.

**Rwyt ti wedi gweithio gyda phobl ifainc yr eglwys ers blynyddoedd. Pam mae'r gwaith yn bwysig i ti?**
Rwy'n ei chyfri hi'n fraint cael bod yng nghwmni'r bobl ifanc – rwy'n dal i gyfri' fy hun yn ifanc, cofiwch! Maen nhw'n gwmni da, ac wedi bod yn hawdd i'w trin ar hyd y blynyddoedd. Ond, rwy'n ymwybodol iawn eu bod yn wynebu pob math o broblemau a themtasiynau a bod angen gofal a gweddi arnynt. Rwy'n ymwybodol bod clybiau pobl ifainc a gwersylloedd, ynddyn nhw eu hunain, ddim yn ddigon i'w cynnal yn eu bywyd ysbrydol. Mae angen ymrwymiad yr holl aelodau i weddïo drostynt, mae angen esiamplau da o bob oed arnyn nhw, ac mae angen eu hannog a'u herio i wneud yn siŵr eu bod meithrin arfer da o ddarllen a gweddïo yn bersonol.

**Pa fendith a her wyt ti'n eu cael o fod yn henuriad yn yr eglwys?**
Rydw i wrth fy modd gyda dysgeidiaeth y Testament Newydd am yr eglwys leol. Mae'r darlun o'r eglwys fel corff yn arbennig iawn. Mae rôl unigryw gan bawb ac mae cyfraniad pawb yr un mor werthfawr â'i gilydd – y gweddïwr ffyddlon, y gwrandäwr da, yr athro ysgol Sul, y Gweinidog, yr un sydd â dawn croesawu, y gweithiwr yn y Clwb Plant, yr un sy'n gwneud paned a'r un sy'n casglu'r llyfrau emynau! Ond mae fy nghyfrifoldeb i fel henuriad yn fy nifrifoli. Rwy'n gwybod y bydd rhaid i mi fod yn atebol ryw ddydd dros aelodau Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd, a'r ffordd yr ydw i wedi cyfrannu yn fy rôl fel un o henuriaid yr eglwys.

**(Parhad o dudalen 11)**

– fel bag tŵls y saer neu'r adeiladydd – i'w defnyddio er mwyn dod o hyd i ystyr llyfrau, penodau ac adnodau'r Beibl. Mae yna ymwybyddiaeth mai dyna sydd ei angen – yr offer cywir, nid rhyw hud a lledrith arallfydol. Ond, mae yna ymwybyddiaeth hefyd fod y Beibl, o'i ddadansoddi'n gywir, yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd arallfydol gan mai gair Duw yw e.

Wrth gwrs, efallai eich bod chi'n casáu darllen, ac mai dyna'ch problem. Na phoener. Mae'r llyfr wedi ei drefnu'n benodau byr, darllenadwy sy'n cyflwyno un tŵl ar ôl y llall. Mae'n mynd drwy'r cit sydd ei angen ar y darllenydd: o bethau cyffredinol fel 'Pwrpas yr awdur' a 'Strwythur', i'r manwl wrth edrych ar '*parallels*'. Cewch ddysgu bod rhannau o'r Beibl wedi eu hysgrifennu mewn *chiasm*, a chyfle i ystyried beth yw naws darn a pham mae hynny'n bwysig. A'r hyn sy'n gweithio orau am y llyfr hwn yw eich bod chi'n cael cyfle i gael tro eich hun. Ym mhob pennod mae cyfle i ddefnyddio rhyw dŵls penodol ar ddarn o'r Beibl, ac enghraifft o sut i ddefnyddio'r offer yn gywir. I un fel fi sy'n dysgu trwy edrych ar esiamplau real, mae hynny'n dipyn o help! Yn y bennod ar 'Gyd-destun' er enghraifft, mae esiampl o 2 Samuel. Wedyn, mae cyfle i ddarllen Marc 8:22-26 ac ystyried effaith adnodau 14-21 a 27-30 ar y darn hwnnw. Beth sy'n grêt am hyn wrth gwrs yw bod darllen y llyfr hwn yn dod yn gyfrwng i astudio'r Beibl ac, yn fy mhrofiad i, yn gyfrwng nid yn unig i agor fy llygaid i ystyr rhai adnodau ond hefyd i ymateb i'r Awdur ei hun.

Mewn byd lle mae camddehongli'r Beibl wedi creu rhyfel a chaethiwed, mewn oes sy'n credu mai unig ystyr i destun yw fy nehongliad personol i, mewn cyfnod lle mae teimladau'n rheoli a gwirionedd yn cael ei anwybyddu, dyma lyfr pwysig. Mae'n ein tynnu ni'n ôl at y Beibl a'i bwysigrwydd. '*Tools to reach the bible's treasures*' yw is-deitl y gyfrol ddarllenadwy hon, a dyna a wna. Mae'n llyfr da ond allwedd yw e sy'n arwain at y gwir drysor. Nid ei gwneud hi'n haws darllen y Beibl yw hynny, ond adnabod y Duw a'i llefarodd ac sy'n dal i siarad â ni trwyddo heddiw os ydym am wrando.

# Newyddion

Rydyn ni wedi cael cyfle yn y rhifyn hwn i gofio am y diweddar J. D. Williams. Cydymdeimlwn yn fawr â Rhian Williams, a fu mor ffyddlon ei gofal drosto ar ei haelwyd, a Gwynn, Lis, Hywel a Catrin Williams.

Yn frawychus o sydyn cyn y Nadolig bu farw Keith Ellis, sef brawd Phil. Mae'n cydymdeimlad ni â Phil a'r teulu wrth iddynt ddod i delerau â'r golled.

Achos llawenydd mawr i ni fel eglwys oedd dyfodiad mab arall i Hywel a Bethan George, a brawd bach i Gruffydd. Mae Wil Morgan George wedi cael croeso gan aelodau'r eglwys o bob oed.

Cawsom gyfle yn y cyfarfod gweddi wythnosol i glywed dau siaradwr gwadd yn ddiweddar. Daeth Geoff Lane i sôn am y gwaith elusennol sy'n digwydd yn Rwanda, a daeth David Ollerton atom i rannu baich *Cymrugyfan*, sy'n plannu eglwysi newydd mewn ardaloedd yng Nghymru a chryfhau'r rhai sydd eisoes yn bodoli.

Gan ddechrau ym mis Ionawr, byddwn fel eglwys yn cynnal cwrs *Archwilio Cristnogaeth,* bob nos Lun yn Pizzeria Villagio, Yr Eglwys Newydd. Bwriad y cwrs yw darparu cyfle i edrych ar y ffydd Gristnogol mewn awyrgylch anffurfiol, a gofyn cwestiynau a thrafod yn ôl y galw. Gweddïwn y bydd y sesiynau'n fuddiol i'r rhai a ddaw at ei gilydd. Os oes gennych diddordeb mewn ymuno â'r cwrs, mae croeso i chi gysylltu â Lewis Roderick ar 07815 096501.

Yn ogystal â'n cyfarfodydd Nadolig ni yma yn adeilad yr eglwys yn Stryd Rhymni, trefnwyd cyfarfod carolau yn yr Eglwys Newydd, yng nghapel Tabernacl. Wyn James a arweiniodd y gwasanaeth a rhoddwyd gair gan Rhodri Jones. Diolch i bawb a fu wrthi'n trefnu, ac i bawb a aeth allan ar nosweithiau oer er mwyn dosbarthu cardiau Nadolig a gwahoddiadau yn yr ardal. Parhawn i weddïo am yr achlysur ac am ddoethineb wrth wybod sut i symud ymlaen.

Mae Derrick Adams bellach wedi cychwyn ar ei waith fel gweinidog

yn Eglwys Efengylaidd Gymraeg Aberystwyth. Bydd y Cyfarfod Croeso yn digwydd ddydd Sadwrn, 20 Ionawr, yn Eglwys Alfred Place, Aberystwyth, a Gwynn Williams fydd yn pregethu. Cofiwn am yr eglwys ar ddechrau'r bennod newydd hon yn ei hanes. Mae gennym gysylltiad agos â'r eglwys yn Aberystwyth – mae nifer ohonom wedi mynychu yn ystod cyfnod coleg, rhai ohonom yn blant yr eglwys honno, a bu rhai o'i haelodau presennol gyda ni yma yng Nghaerdydd am gyfnod.

Llongyfarchiadau i Siôn Williams ar ei ddyweddïad ag Anna. Mae Siôn yn treulio cyfnod yn Sarande, Albania ar hyn o bryd, yn gweithio gydag eglwysi lleol, yn gwneud gwaith Cristnogol ymhlith plant, ac yn cysylltu'r â'r gymuned sipsiwn Cuke. Cofiwn amdano yn ein gweddïau. Cewch glywed ei hanes yn fanylach ar y blog sioninalbania.blogspot.com.

**Gŵyl Ddewi**
Rydyn ni'n gobeithio cynnal Oedfa i ddathlu Gŵyl Ddewi yn yr Eglwys Newydd, ddydd Sul, 4 Mawrth. Bydd Dathliad Gŵyl Ddewi'r Eglwys yn digwydd nos Wener, 2 Mawrth am 6 yr hwyr, pan fydd gemau ar thema Gymreig a chawl. Croeso i holl gysylltiadau'r Eglwys i ymuno â ni.

**Casgliadau Misol**
• Ionawr - Plant y Stryd, Mecsico
• Chwefror - Dafydd James Morse
• Mawrth - Mudiad Efengylaidd Cymru (costau cyfieithu Esbonio Cristnogaeth)

**Encil yr Eglwys**
Bu Encil yr Eglwys yn achlysur hapus a bendithiol i bawb y llynedd, felly cofiwch archebu lle eleni eto. Bydd yn digwydd yng Nghanolfan yr Haven, Penfro, ddydd Iau, 12 Ebrill – dydd Sadwrn, 14 Ebrill.

**Cyfarfodydd i Ddysgwyr –**
Boreau coffi, 10.30 - 12.00, bore Sadwrn
• Ionawr 13 - Bobi Jones gyda John Emyr
• Chwefror 10 - Eluned Morgan: Y Wladfa a Chaerdydd gyda Wyn James
• Mawrth 10 - Dafydd Jones o Gaeo gyda Lynn Davies

**Pwyllgor Cwmpawd**

Leri George,
Noel Gibbard,
Amanda Griffiths,
Gwynn Williams,
Catrin Lewis

# I’r Dyddiadur

## *Yn ystod yr wythnos…*

**Clwb yr Hapus Awr** | nos Lun | 5.30 - 6.30pm
**Cyfarfod Gweddi** | nos Fawrth | 7.30pm
**Paned a Sgwrs** | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am
**Cylch y Plant Bach** | bore Gwener | 10.30 - 12.00am
**Clwb y Bobl Ifainc** | nos Wener | 7.00pm

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys

## *Ar ddydd Sul…*

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/ Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau’r ysgol (11.45 – 12.30).

| | | |
|---|---|---|
| *Ionawr* | *7* | *Gwynn Williams* |
| | *14* | *Gwynn Williams / Lewis Roderick* |
| | *21* | *Gwynn Williams* |
| | *28* | *Dafydd James Morse* |
| *Chwefror* | *4* | *Gwynn Williams* |
| | *11* | *Gwynn Williams / Lewis Roderick* |
| | *18* | *Owen Griffiths* |
| | *25* | *Gwynn Williams* |
| *Mawrth* | *4* | *Gwynn Williams* |
| | *11* | *Gwynn Williams* |
| | *18* | *Gwynn Williams / Lewis Roderick* |
| | *25* | *Gwynn Williams* |
| *Ebrill* | *1* | *Gwynn Williams* |

**Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd**
**Stryd Rhymni**
**Cathays**
**Caerdydd**